**Cyngor Sir y Fflint**

# Ymgysylltu Heddiw i Drawsnewid Yfory

**Ymgynghoriad Cyhoeddus Adroddiad Cryno**

**Tachwedd 2025**

## Pwrpas yr ymgynghoriad

Fe wahoddodd Cyngor Sir y Fflint adborth ar ei Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu newydd - *Ymgysylltu Heddiw i Drawsnewid Yfory* - i helpu i ddatblygu sut beth fydd fersiwn terfynol y Strategaeth.

## Pryd oedd pobl yn cael dweud eu dweud

Fe agorodd yr ymgynghoriad ddydd Llun 29 Medi a chau ddydd Sul 9 Tachwedd 2025.

## Sut oedd pobl yn cael dweud eu dweud


Roedd yr ymgynghoriad ar gael ar-lein drwy wefan y Cyngor.

I'r rhai hynny nad oeddent yn gallu cwblhau'r arolwg ar-lein roedd cefnogaeth ar gael ym mhob un o Ganolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu.


Roedd cefnogaeth hefyd ar gael drwy Wasanaeth Llyfrgell Symudol Gwella ar 30 Medi, 2, 15, 17, 22, 24 Hydref a 4 a 6 Tachwedd.


## Nifer y bobl a gymrodd ran:


Ymatebodd cyfanswm o 43 o bobl i'r holiadur. Ni aeth pawb a ddechreuodd yr arolwg ymlaen i gwblhau'r holl gwestiynau. Cynhwysir pob ymateb a roddwyd cyn rhoi'r gorau i'r arolwg yn yr adroddiad cryno hwn.



## Yr hyn ddywedodd pobl wrthym











Y sianeli eraill y nododd pobl y byddent yn hoffi eu defnyddio oedd:


- Cynulliad dinasyddion
- Post
- Arolygon a yrrir gan Ddeallusrwydd Artiffisial

## Yr effaith ar y Gymraeg



**Y Canolbwynt Ymgynghori ac Ymgysylltu**



Yn ychwanegol at yr ymatebion a amlinellir uchod, gallai pobl egluro wrthym hefyd pam roddwyd yr ateb hwnnw ganddynt.   Mae manylion am yr ymatebion hyn isod ochr yn ochr ag argymhellion ar gyfer gweithredu.

## Anghytuno fod y strategaeth yn glir, yn hawdd i'w darllen, yn hawdd i'w deall neu y bydd yn cefnogi llawer o wahanol bobl i gael llais.

| | Adborth | Ymateb a gynigir |
|---|---|---|
| 1 | Nid yw'n ymddangos fel pe bai'n strategaeth, dim ond datganiad - yn dweud y byddwch yn gwneud yr holl bethau hyn i gyfathrebu ond nid beth fyddech yn ei wneud na newid yr hyn y byddwch yn ei flaenoriaethu. Er enghraifft os oes gennych chi ddeiseb dros swm penodol a fydd hynny yn newid penderfyniadau? Os na fydd, sut fydd preswylwyr yn newid penderfyniadau rhwng etholiadau? | Mae adborth yn awgrymu fod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar y gair 'Strategaeth' a beth mae hyn yn ei olygu yn hanesyddol.<br><br>Argymell newid y cysyniad o 'strategaeth' i 'ymagwedd' gan roi'r pwyslais yn fwy ar beth all pobl ei ddisgwyl.<br><br>Rydym yn dweud yn y ddogfen:<br><br>"Bydd yr adborth a roddwch i ni yn cael ei ystyried a'i ddefnyddio i helpu i lywio'r penderfyniadau a wnawn, a *phan na allwn weithredu ar y pethau a ddywedoch wrthym, byddwn yn egluro pam*."<br><br>Awgrymu newid i:<br><br>*Bydd yr adborth a rowch i ni yn cael ei ystyried a'i ddefnyddio i helpu i lywio'r penderfyniadau a wnawn.  Nid yw bob amser yn bosibl i ni weithredu ar yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym. Weithiau mae ffactorau eraill y mae angen i ni eu hystyried, er enghraifft yr hyn y dylem ei wneud yn ôl y gyfraith.  Pan fo hyn yn digwydd, byddwn yn dweud wrthych am hynny ac yn egluro pam na allwn ei wneud.*<br><br>Yn dilyn y Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol a Throsolwg ar 11 Rhagfyr cafodd hyn ei newid ymhellach i:<br><br>*Pan fydd y Cyngor yn gofyn am eich safbwyntiau, nid pleidlais ydyw.  Fe fydd eich adborth yn cael ei ystyried gyda'r holl wybodaeth arall sydd gennym i wneud penderfyniad teg a thryloyw.  Bydd y Cyngor bob amser yn ystyried yr hyn fydd pobl yn ei ddweud, pa mor berthnasol a phwysig yw pob sylw, ynghyd â'n cyfrifoldebau deddfwriaethol.* |
| 2 | Rwy'n anghytuno oherwydd, nid oedd y penderfyniad diweddar i ganiatáu'r | Penodol i gynllunio, anhapus gyda chanlyniad datblygiad newydd.  Dim camau pellach. |

| | | |
|---|---|---|
| | datblygiad o 300 eiddo ym Mhenarlâg yn cynnwys neu'n ymgysylltu gyda phreswylwyr Penarlâg ac Ewlo. Yn wir cyfaddefodd un cynghorydd yn agored nad oedd wedi darllen unrhyw rai o'r negeseuon e-bost roedd wedi eu derbyn gan breswylwyr. Cafodd cynghorydd arall ei orfodi i ymddiheuro am yr iaith gamdriniol a ddefnyddiwyd tuag at y preswylwyr. | |
| 3 | Fe ddylai fod yn fwy clir ar gyfnewidiadau, nid ar y dulliau yn unig. Pryd fyddwch chi'n ymrwymo i ymgynghori, sut, am ba hyd a sut fyddwch yn defnyddio'r ymatebion yn y broses o wneud penderfyniadau? | Mae pob ymgynghoriad yn wahanol – statudol/anstatudol – cynulleidfa darged – ayb felly nid yw'n bosibl i fod yn gyfarwyddol ynglŷn â'r manylion.<br><br>Rydym yn dweud y byddwn yn cychwyn sgyrsiau'n gynnar. Argymell ychwanegu testun coch:<br><br>Byddwn yn cychwyn sgyrsiau mor fuan ag sy'n bosibl, i roi digon o amser i bobl gymryd rhan, fel bod y farn a'r safbwyntiau yr ydym yn eu casglu yn gallu dylanwadu ar y penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud. |
| 4 | Mae ystadegau yn beth da pan maent yn cael eu defnyddio'n adeiladol. Fodd bynnag, nid wyf yn siŵr beth fyddai pwynt hyn yn yr achos hwn ar wahân i fwy o siarad a gwario arian y gellir ei wario'n well i wella pethau gweladwy. Rydym eisoes yn gallu rhoi ein safbwyntiau a cheisiadau i'r Cyngor. Rwy'n rhoi gwybod am bethau ac yn aml nid oes unrhyw beth yn cael ei wneud heb orfod mynd ar ôl materion. Gallai amlfeddiannaeth brofi'n broblematig ond mae'r Cyngor yn dal i edrych ar hynny. | Cadw'r ystadegau ond gwneud hynny'n llai ac yn gryno fel nad ydynt fel pe baent yn gorlethu'r ddogfen gyfan.<br><br>O dan y pennawd Sut mae Sir y Fflint yn edrych argymhellir ychwanegu'r testun:<br><br>*Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i'r Cyngor ymestyn at wahanol grwpiau o bobl gan eu gwahodd i ddweud eu dweud ar bethau sy'n bwysig iddynt.* |
| 5 | O'r ddogfen nid oes gen i syniad beth yw eich strategaeth. Mae'n ymddangos fel dim ond dadansoddiad o ddemograffeg preswylwyr Sir y Fflint. | Fel 4 uchod yn ogystal â diwygio'r dudalen flaen:<br><br>Graffeg botwm ar y brig ar y dde – ei atal rhag ailadrodd ar yr holl dudalennau a'i ddiwygio i fod yn deitl dogfen glir gyda'r testun:<br><br>**Ymgysylltu Heddiw i Drawsnewid Yfory** |

| | | |
|---|---|---|
| | | *Ymagwedd Cyngor Sir y Fflint tuag at Ymgynghori ac Ymgysylltu.* |
| 6 | Rwyf wedi clicio ar y cod QR ar eich poster ac wedi dod at yr holiadur a does gen i ddim syniad am beth mae hwn. | Roedd hwn yn gamgymeriad a gafodd ei gywiro o fewn rhai oriau wedi i'r arolwg fynd yn fyw. Roedd y ddolen i'r strategaeth ddrafft ar goll. |
| 7 | Mae pobl o Gyngor Sir y Fflint bob amser yn gwrtais iawn wrth i ni siarad â nhw, ond wedi hynny does dim sicrwydd a fydd unrhyw beth yn cael ei wneud. | |
| 8 | Ddim yn siŵr a yw'n adlewyrchu ar Sir y Fflint heddiw | Cyfrifiad 2021 yw'r data ardystiedig mwyaf dibynadwy a chyson. Dim newidiadau wedi eu hargymell. |
| 9 | Rwy'n credu y gallai'r cynllun gael ei wella gyda phenawdau mwy clir. Fyddwn i ddim yn galw hon yn strategaeth - dwi ddim 100% yn siŵr beth ydyw. Dim ond dogfennau gydag ystadegau. | Fel sylwadau 1, 4 a 5 uchod ac yn ychwanegol tacluso'r dudalen flaen. |
| 10 | Nid yw o reidrwydd yn eglur nad yw'r ddogfen yn alwad uniongyrchol i weithredu a'i bod yn fwy o ddogfen baratoadol. Mae'n teimlo y dylai hynny fod yn fwy eglur ar y dechrau. Mae'n ymddangos yn apelgar fel arall. | Fel sylwadau 1, 4, 5 a 9 uchod. |

## Unrhyw beth sydd angen ei ychwanegu at y strategaeth.

| | | |
|---|---|---|
| 11 | Unwaith y bydd gennych chi'r wybodaeth gan eich etholwyr beth fyddwch yn ei wneud gyda'r wybodaeth - beth yw'r trothwy i achosi newid mewn polisi? Fel arall pam trafferthu! Yr unig fudd yw y gallwch ddweud eich bod wedi gofyn fel sy'n ofynnol, tra'n gwastraffu amser etholwyr. | Mae pob ymgynghoriad yn wahanol ac ansawdd a dilysrwydd y pwyntiau a gyflwynir, ac nid o reidrwydd cyfanswm yr ymatebion, a fydd yn penderfynu sut a phryd y gallwn wneud pethau'n wahanol.<br><br>Gweler 1 uchod. |
| 12 | Addewid i wrando ar y cyngor proffesiynol yn ymwneud â datblygiadau a gweithredu ar hynny. | Gweler 2 uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 13 | Ymrwymiadau i ymgynghori.  Effaith yr ymgynghoriad ar wneud penderfyniadau. | Gweler 1 a 3 uchod a 26 isod. |
| 14 | Rydym mewn cyfnod anodd ac felly rhaid i bob ceiniog gyfrif, peidiwch â gwastraffu eich arian ar ymgynghoriadau ac ymgysylltu, fel nodwyd yn flaenorol rydym eisoes yn gallu cysylltu â'r cyngor, ond gall eich ymgysylltiad fod yn ddiffygiol oherwydd yn aml nid oes dim yn cael ei wneud heb orfod mynd ar ôl pethau. Efallai mai dechrau gwell fydda i ddweud wrth y rhai hynny sy'n cysylltu â chi, o fewn amser rhesymol:-<br><br>Beth rydych yn gobeithio ei wneud ynglŷn â mater<br><br>Beth rydych yn ei wneud ynglŷn â'r mater<br><br>Neu<br><br>Pam na allwch wneud unrhyw beth a sut allant fynd â'r mater ymhellach.<br><br>Gofynnwch gwestiynau uniongyrchol i bobl os oes rhaid i chi, er gall nodi'r gwir mewn rhai o'r atebion brofi'n annymunol.<br><br>Cwestiynau fel:-<br><br>1. Sut fyddech chi'n gwella gwariant y cyngor?<br><br>2. Sut fyddech chi'n gwella ei berfformiad?<br><br>Os mai dim ond 11.6 sy'n siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint ac nad yw'n iaith gyntaf i bob un o'r preswylwyr hyn, gofynnwch iddynt.<br><br>2. Ydych chi eisiau i'ch Cyngor anfon gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg?<br><br>Ychwanegwch yr hyn maent yn ei ffafrio i'ch cronfa ddata ar gyfer defnydd yn y dyfodol.  Fel arall anfonwch yr holl ohebiaeth yn Saesneg gyda nodyn eglurhaol yn nodi os oes angen gohebiaeth yn y dyfodol yn y Gymraeg y byddwch yn | Mae yna orgyffwrdd yma gyda'r Strategaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid a phrosesau gosod y Gyllideb.<br><br>Adborth i'w drosglwyddo i'r gwasanaethau perthnasol ar gyfer ei ystyried.<br><br>Argymell dim newidiadau ac eithrio'r rhai a nodwyd mewn mannau eraill yn y grynodeb hon. |

| | | |
|---|---|---|
| | diwygio eich cofnodion yn unol â hynny. Gall costau papur ac argraffu gael eu torri'n sylweddol.<br><br>Yn fy marn i gan y dylai'r holl breswylwyr yn Sir y Fflint fod yn siarad Cymraeg neu Saesneg neu fod yn dysgu un ohonynt.<br><br>3. A ddylai Cynghorwyr a Chynghorwyr Cymuned gael eu talu?<br><br>Yn fy marn i dim ond cael eu had-dalu am y treuliau maent yn eu hysgwyddo y dylent. Rwy'n defnyddio fy arian i blannu a chynnal tybiau blodau yn y gymuned ac fe fydda i'n parhau i wneud hynny cyhyd ag y byddaf yn gallu gwneud, os derbynnir tâl ai peidio. | |
| 15 | Strategaeth? | Ymdrinnir â hyn yng nghyfeiriadau 1 i 10 uchod |
| 16 | Eglurhad o beth ydyw | Ymdrinnir â hyn yng nghyfeiriadau 1 i 10 uchod |
| 17 | Nodiadau digonol ond syml | Ymdrinnir â hyn yng nghyfeiriadau 1 i 10 uchod |
| 18 | Anfon pamffledi i'r holl aelwydydd yn Sir y Fflint. | Mae hyn yn fwy perthnasol i'r adran yn ymwneud â sut mae pobl eisiau cymryd rhan. Mae'r post eisoes wedi ei nodi fel opsiwn. |
| 19 | Mwy o fanylion cyfredol, mae'n ymddangos fel pe bai wedi dyddio'n sylweddol | Gweler 8 uchod |
| 20 | Strategaeth go iawn | Ymdrinnir â hyn yng nghyfeiriadau 1 i 10 uchod |

## Unrhyw adborth arall ar y strategaeth

| | | |
|---|---|---|
| 21 | Mae'r ddogfen hon yn llawer haws i'w darllen a'i deall o'i gymharu â dogfennau hir eraill a gynhyrchir gan wasanaethau'r cyngor. | |
| 22 | Mwy o arian yn cael ei wastraffu gan ofyn cwestiynau am beth rydym ni ei eisiau, ond i ba ddiben? | |
| 23 | Mae'n gadarnhaol i weld y Cyngor yn gwneud rhywbeth mwy modern. Mae'n llawer mwy ymgysylltiol fel hyn. | |

| | | |
|---|---|---|
| 24 | Gweler uchod, dim syniad beth ydyw. Hysbysebu gwael | Fel 6 uchod |
| 25 | Hoffwn wybod faint o bobl sy'n ymateb mewn gwirionedd i'r rhain gan fod canran yn adlewyrchu canran y rhai hynny a atebodd y cwestiwn ac nid yw'n wir adlewyrchiad o deimlad preswylwyr Sir y Fflint. | |

## Adborth a dderbyniwyd gan Dîm y Prif Swyddogion ar 18 Medi

| | | |
|---|---|---|
| 26 | Mesuriadau – sut rydym yn mesur y canlyniadau a sut all hynny gael ei adlewyrchu yn y Strategaeth. | Argymell ychwanegu adran ychwanegol gyda'r testun isod:<br><br>**Sut beth fydd llwyddiant**<br><br>Mae yna lawer o fesurau gwahanol o lwyddiant, a fydd yn cael eu mesur mewn gwahanol ffyrdd.<br><br>Pa mor dda yr ydym yn:<br><br>• cynyddu cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion.<br>• cynyddu hyder y cyhoedd fel bod mwy o bobl yn cymryd rhan.<br>• ymgysylltu â phobl i wella dealltwriaeth (ar y ddwy ochr) cyn i ni ofyn am adborth.<br>• bod yn glir ynglŷn â pham rydym yn gofyn am adborth a sut y gall wneud gwahaniaeth.<br>• cyrraedd llawer o wahanol grwpiau / y grwpiau cywir o bobl.<br>• ei gwneud hi'n hawdd ac yn hygyrch i bobl gymryd rhan.<br>• gwneud newidiadau / gwella pethau o ganlyniad i'r hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym.<br>• dysgu o'r hyn a wnawn i wella sut rydym yn gwneud pethau yn y dyfodol. |

## Effaith ar y Gymraeg

| | | |
|---|---|---|
| 27 | Gallai'r polisi gael effaith gadarnhaol ar benderfyniadau a wneir gan y cyngor os, ac mae hynny'n os mawr, ydynt yn dilyn eu strategaeth. | Argymell dim newid i'r geiriad presennol. |
| 28 | Fe ddylech ymrwymo i gydraddoldeb yr ymgynghoriad o ran y Gymraeg. Er enghraifft, os ydych yn cynnal sesiwn wyneb yn wyneb fe ddylai fod yn ddwyieithog. | Ymdrinnir â hyn yng nghyfeiriad 4 uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 29 | Fe ddes o Loegr yn saith oed ac fe es i ysgol gynradd Gymraeg ac roedd rhaid i mi gyfathrebu yn y Gymraeg o'r diwrnod cyntaf; erbyn yr oeddwn yn 11 oed roedd gen i ddealltwriaeth weddol o'r Gymraeg ac roeddwn yn siarad ychydig. Nid wyf wedi defnyddio'r Gymraeg ers gadael yr ysgol gynradd, er i mi fynd i ddosbarthiadau nos rai blynyddoedd yn ôl. Fe ddechreuodd fy mrodyr a fy chwiorydd i gyd eu haddysg mewn ysgolion cynradd Cymraeg ac fe aethant i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ond eto ni chaiff y Gymraeg ei defnyddio ganddynt mwyach. Nid yw Sir y Fflint yn ardal lle caiff y Gymraeg ei siarad yn helaeth ac o fy mhrofiad i oni bai y defnyddir y Gymraeg yn eang yn ddyddiol mae arian preswylwyr Sir y Fflint yn cael ei daflu i ffwrdd. | |
| 30 | Beth yw'r diben cyffredinol o siarad mwy o Gymraeg - a yw'n gyfleoedd mewn addysg neu yn y gweithle? Mae angen i chi ddiffinio pa fuddion rydych chi'n ceisio eu hennill ar gyfer y gymuned gyfan yn hytrach na dim ond gwella canrannau ar gost uchel heb i unrhyw beth gael ei ennill. | Gweler 4 uchod. |
| 31 | Gweithredwr gwleidyddol yn cael ei yrru gan hunan hyrwyddo. | |
| 32 | Mae ysgolion yn gwthio'r Gymraeg yn llawer mwy nawr ond nid wyf yn credu y bydd yn gwneud llawer o wahaniaeth i fywyd yn Sir y Fflint. | |
| 33 | Mae'n hynod o aneglur beth rydych yn ceisio'i gyflawni. | Ymdrinnir â hyn yng nghyfeiriad 4 uchod. |

## Adborth ar ein Canolbwynt Ymgynghori ac Ymgysylltu

| | | |
|---|---|---|
| 34 | Nid yw'n eglur ar beth yr ymgynghorwyd - e.e. nid yw'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig yno. Rhoi pawb ar y canolbwynt. | Dim camau i'w cymryd, mae gan Orchmynion Rheoleiddio Traffig eu hadran eu hunain yn y Canolbwynt Ymgynghori ac Ymgysylltu – sy'n weladwy o'r dudalen hafan. |
| 35 | Mae angen i chi ddarparu gwybodaeth fwy eglur a beth rydych yn ceisio'i gyflawni drwy'r ymgysylltu gwahanol - nid ydych yn darparu digon o wybodaeth i bobl allu gwneud cyfraniadau ar sail gwybodaeth. | Dylai'r strategaeth fynd i'r afael â hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| | Fe ddylai ddangos canlyniadau pan nad oeddech wedi gwrando. | Mae hyn ar hyn o bryd yn wendid gyda llawer o ymgynghoriadau sydd wedi cau yn parhau i ddangos fel canlyniadau a ddisgwylir.<br><br>Wrth ddilyn y Strategaeth dylai hyn wella ansawdd y wybodaeth rydym yn ei darparu. |
| | Defnyddiwch un lle ar gyfer yr holl ymgynghoriadau a'ch galluogi i danysgrifio ar gyfer ymgynghoriadau newydd/diweddariadau.<br><br>Cyhoeddwch ymatebion ymgynghoriadau a beth wnaethoch i ymateb iddynt. | Nid yw technoleg gyfredol yn darparu'r elfen ymarferol hon.<br><br>Wrth ddilyn y Strategaeth dylai hyn nid yn unig wella ansawdd y wybodaeth rydym yn ei darparu ond hefyd prydlondeb. |

## Y broses ymgynghori a pha grwpiau o bobl a gymrodd ran

**Pwy oedd yn gallu cymryd rhan:**

Yr oedd yr ymgynghoriad ar gael ar-lein ac yn agored i bawb.

Aelodau Etholedig; Cynghorau Tref a Chymuned; gweithlu'r Cyngor; rhwydweithiau proffesiynol, cymunedol a chydraddoldeb; y cyfryngau cymdeithasol a'r wasg.

**Sut yr ymgysylltwyd â phobl:**

Cyfathrebwyd â'r canlynol drwy e-bost i ofyn am gefnogaeth i ehangu ein gohebiaeth:

- Cynghorwyr Cyngor Sir y Fflint
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Rhwydweithiau proffesiynol / grwpiau defnyddwyr gwasanaeth:
    - Tenantiaid tai
    - Pobl hŷn
    - Pobl ifanc
    - Teuluoedd
    - Sefydliadau gwirfoddol ac elusennol
    - Busnesau
    - Grwpiau cydraddoldeb

Cyfathrebwyd drwy'r canlynol hefyd:

- Gwefan y Cyngor – prif faner ar hafan y wefan a thrwy'r canolbwynt ymgynghori ac ymgysylltu
- Prif faner ar Infonet y Cyngor (mewnrwyd)
- Negeseuon e-bost Newyddion y Gweithlu
- Y Cyfryngau Cymdeithasol
- Datganiad i'r wasg